

Rownd Gomisiynu Radio Cymru Ebrill 2020



Mae BBC Radio Cymru heddiw yn cyhoeddi rownd gomisiynu newydd er mwyn cefnogi cynhyrchwyr annibynnol yn ystod y cyfnod anodd hwn i'r sector, ac i dderbyn syniadau newydd er mwyn codi ysbryd ein cynulleidfaoedd.

Mae'r orsaf wedi creu cronfa arbennig er mwyn cefnogi syniadau ar gyfer rhaglenni newydd y gellir eu creu'n gyflym i'w darlledu dros y misoedd nesaf.

Yn amlwg, mae'r heriau o weithio o adref yn sylweddol i'r sector annibynnol ar hyn o bryd ac mae'n rhaid i ni weithio o fewn y cyfyngiadau sy'n bodoli o ran teithio a chadw pellter cymdeithasol. Serch hynny, mae'r orsaf yn awyddus i fanteisio ar y creadigrwydd sydd wedi ymddangos yn sgil y cyfyngiadau hyn. Mi allwn ni, hyd yn oed dan yr amgylchiadau newydd yma, greu rhaglenni difyr a chynnwys cyffrous.

Mi fydd y rownd gomisiynu yma'n digwydd o fewn amserlen dynn iawn. Rwyf yn gofyn i gynhyrchwyr rhaglenni gyflwyno eu cynigion erbyn Ebrill 21ain, 2020. Bydd y syniadau gorau yn cael eu comisiynu erbyn dechrau mis Mai.

Yr hyn sy'n bwysig yw natur y cynnwys. Rydym am i chi ganolbwyntio'n bennaf ar adloniant a chynnwys sy'n codi calon – rhaglenni sy'n gwneud i bobl wenu, neu i feddwl, neu sy'n uno teuluoedd a chymunedau. Mae digon o gynnwys am y firws a'i oblygiadau eisoes yn ein rhaglenni newyddion, felly byddai'n well gennym ganolbwyntio'n bennaf, er nad yn ddieithriad, ar greu adloniant sy'n caniatáu i bobl ddianc rhag y sefyllfa - boed hynny drwy raglenni llafar neu gerddoriaeth. Byddai defnyddio pobl dalentog Cymru – o'r byd cerddoriaeth, llenyddol, darlledu, theatr, ffilm, comedi neu'r celfyddydau - yn sicr yn cael ei werthfawrogi.

Y peth pwysicaf i'w gofio yw bod yn rhaid i'ch syniad sefyll allan. Mae'r byd adloniant, ar y llwyfannau traddodiadol a'r rhai digidol, yn llawn cynnwys gwahanol ac felly mae'n rhaid i'r hyn yr ydym yn ei gynnig fod yn arloesol. Rydw i eisiau i BBC Radio Cymru fod yn belydryn disglair iawn o oleuni yn ystod y cyfnod yma, ac felly mae'n rhaid bod eich syniad yn iawn ar gyfer y foment yma.

Rwyf hefyd yn awyddus i glywed am unrhyw syniadau sydd gan gwmnïau am ddod â Chymru ynghyd ar ôl y firws – boed hynny mewn rhaglen untro, yn gyfres neu'n ddigwyddiad.

Mae cefnogi ein cynhyrchwyr annibynnol ar yr adeg yma'n bwysig iawn i Radio Cymru. A dyna pam ein bod yn cyhoeddi'r gwahoddiad hwn i greu cynnwys newydd, yn ogystal ag anrhydeddu'r cytundebau, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol bosibl, ar gyfer y rhaglenni sydd wedi eu comisiynu eisoes eleni.

Ar hyn o bryd, mae pobl Cymru yn troi at Radio Cymru er mwyn cael gwybodaeth ddibynadwy, i glywed adloniant difyr, ac er mwyn cael cwmni da. Gyda chefnogaeth ein sector a'n gwrandawyr, rydym yn benderfynol o barhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel sydd a'r amrywiaeth arferol.

Diolch i chi,

Rhuanedd



Tîm rheoli Radio Cymru, Radio Cymru 2 a Cymru Fyw

Y Golygydd

Rhuanedd Richards Uwch-Olygydd Cynnwys BBC Radio Cymru a BBC
Cymru Fyw

Y Dirprwyon

Ynry Williams Golygydd Cynnwys (Dirprwy), Radio Cymru

Gruffudd Pritchard Golygydd Cynnwys (Dirprwy), Cymru Fyw, Radio Cymru
2 a BBC Sounds (Cymraeg)

Yr Uwch Gynhyrchwyr

Gareth Iwan Jones 4Rhaglenni Bangor
Dafydd Meredydd Rhaglenni Caerdydd

Rheoli

Cerian Arianrhod Rheolwr Amserlennu
Angharad Davies Rheolwr Cynhyrchu, Caerdydd
Catrin Huws Rheolwr Cynhyrchu, Bangor

Proteus

Mae angen i **bawb** gyflwyno eu syniadau trwy system Proteus. Gydag hyfforddiant disgwylir i bob gwaith gweinyddol ôl gynhyrchu hefyd gael eu cyflwyno drwy Proteus. Bydd eich login ar gyfer Proteus yn diweddu gyda 01 neu 02 unwaith y byddwch wedi derbyn yr hyfforddiant anghenrheidiol i gyflwyno'r gwaith "papur" arferol.

I fewngofnodi mae angen manylion mewngofnodi (*login*) ac mae'n bosib cael hwn drwy gysylltu â'r canlynol:

Angharad Davies angharad.davies.01@bbc.co.uk

Michelle Phillips michelle.phillips@bbc.co.uk

Ryan Angove ryan.angove@bbc.co.uk

Elena Williams elena.williams@bbc.co.uk

****Os NAD ydych wedi cael *login* eisoes mae angen i chi sicrhau hyn cyn gwneud dim arall.**

Er mwyn i'ch cynnig(ion) gyrraedd y lle cywir dyma'r camau angenrheidiol. Mae croeso i chi gynnwys rhagor o wybodaeth wrth gynnig syniad(au), ond dyma'r prif bethau:

Y cyfeiriad os yn mewngofnodi'n annibynnol gyda *login* sy'n diweddu "00":

<https://proteus-pitching.tools.bbc.co.uk>

Y cyfeiriad os yn mewngofnodi'n annibynnol gyda *login* sy'n diweddu "01", "02", a.y.y.b.

<https://proteus-external.tools.bbc.co.uk>

Ewch i Change language i'r dde ar dop y sgrîn, yna dewisiwch Cymraeg.

Dewisiwch **Create a Proposal** (Saesneg yn unig).

Rhwydwaith: Dewisiwch **Wales - Radio Cymru FM**.

Blwyddyn Gomisiynu / Rownd: Dewisiwch

- **2020 (4)** Rownd Gomisiynu ychwanegol Ebrill 2020

Brîff Comisynu: Dewisiwch beth bynnag sy'n berthnasol, e.e. *Factual* neu *Comedy* (Saesneg yn unig). Os nad ydych yn siŵr os yw unrhyw un o'r dewisiadau'n gweddu eich syniad, neu os yw ambell ddewis yn teimlo'n rhy benagored, e.e. *Drama*, ebostiwch cerian.arianrhod@bbc.co.uk i weld os oes modd ychwanegu

brîff a allai fod yn nes ati, e.e. *Drama - Historical*. Fyddwch chi ddim gwaeth na gofyn!

Hyd pob pennod: rhowch 27 munud os yn cynnig rhaglen ar gyfer slot hanner awr neu 54 ar gyfer slot awr, nid 30 neu 60.

Cynyhyrchydd: Er nad yw'n orfodol, rhowch enw yn y blwch yma.

Dyddiad derbyn: Nodwch pryd y gallai'r rhaglen(ni) fod yn barod i'w darlledu. Os ydych eisiau trafod hyn ymhellach yna nodwch 31/03/2021.

Rhaid rhoi **Crynodeb byr**.

Arbedwch fel **Drafft** ar waelod y sgrîn.

Pwyswch **Cynnig i'r Adran** ar waelod y sgrîn neu **Cynnig i'r Rhwydwaith** ar waelod y sgrîn.

Os ydych wedi gwasgu **Cynnig i'r Adran, rhaid wedyn gwasgu **Cynnig i'r Rhwydwaith** hefyd. Fydd y cynnig ddim yn cyrraedd pen ei daith os y byddwch yn gwasgu **Cynnig i'r Adran** yn unig.

Comisiynu i Radio Cymru

Y prif themâu yw:

1. Adloniant Ysgafn

Yr ydym yn gwahodd ceisiadau am raglenni adloniant ysgafn o unrhyw fath – ond yn enwedig adloniant i'r teulu cyfan sy'n mynd i apelio at ystod eang o bobl. Mi ellir cynnig hyn ar amryw o ffyrdd boed trwy raglen gomedi, un sy'n seiliedig ar gerddoriaeth, cwis neu raglen sy'n seiliedig ar gynnwys sydd wedi ei gynnig gan wrandawyr. Mi all y rhaglenni fod yn 27 munud, yn 52 munud neu'n hwy.

2. Dogfen/ Llafar

Gwahoddwn geisiadau hefyd gennych i gynhyrchu rhaglenni dogfen a llafar dychmygus. Yr unig amod yw eu bod yn rhaglenni sy'n codi'r galon neu sy'n caniatáu i'r gynulleidfa ymgolli mewn pwnc penodol e.e. digwyddiad hanesyddol, mater gwleidyddol neu unrhyw bwnc difyr arall. Tybed hefyd oes yna sgysiau sy'n digwydd yn y sefyllfa sydd ohoni y dylem fod yn eu clywed a'u rhannu gyda chynulleidfa Radio Cymru? Gwahoddir ceisiadau am raglenni unigol neu gyfresi byrion (2 neu 3 rhaglen yn amlach na pheidio) 27' yr un.

Mae rhai cyfleoedd i gynnig syniadau am raglenni dogfen 54', bydd addasrwydd y testun yn allweddol i gomisiwn o'r hyd yma. Byddai cynnwys cynllun cynhwysfawr am ddefnydd ychwanegol ar gyfer Cymru Fyw, cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo yn cryfhau'r cais.

3. Cerddoriaeth

A oes gennych syniad ar gyfer rhaglen gerddoriaeth? A ydych wedi meddwl am bersonoliaeth cryf i lywio'r gynulleidfa trwy eich dewis cerddorol? Oes yna ffordd newydd o blethu'r adloniant a'r gerddoriaeth er mwyn creu rhaglen deuluol?

Mae gennym sawl cyfle i gynnig rhaglenni cerddorol :

- **Rhaglenni 110' o gerddoriaeth glasurol poblogaidd**
- **Rhaglenni hyd at dair awr i'w darlledu'n fyw ar bnawn Sadwrn yn yr haf.**
- **Mae rhai cyfleoedd prin ar gyfer rhaglen ddogfen gerddorol 54'**

4. Rhaglenni ar gyfer y cyfnod wedi'r firws

Mae'r categori hwn yn cynnig y rhyddid i gynnig syniad arbennig y gellid ei ddatblygu ar gyfer digwyddiad radio arbennig neu rhyw gynnwys penodol ar gyfer y cyfnod pan fydd y firws yn diflannu o Gymru.

Y dechnoleg sydd ar gael

Mae'n gyfnod heriol yn nhermau recordio rhaglenni. Rydym yn wynebu cyfyngiadau ar ein symudiadau ac mi fyswn yn disgwyl i unrhyw gwmni neu gynhyrchedd weithredu o fewn canllawiau'r llywodraeth.

Mae BBC Radio Cymru ar hyn o bryd yn defnyddio technoleg fel Facetime, Skype a Call Me er mwyn recordio rhaglenni a chyfraniadau. Mae yna raglenni fel Zen Caster ac eraill sy'n caniatáu recordio sgysiau dros y dechnoleg yma.

Mi allwn eich cynghori ynglŷn a'r dechnoleg yma cyn i chi gyflwyno eich syniad, ond rydym yn erfyn arnoch i ystyried sut y byddwch yn rhoi rhaglen at ei gilydd cyn cynnig eich syniad os gwelwch yn dda. Mi fyddwn yn gofyn i chi rannu'r broses y byddwch yn ei dilyn ar gyfer creu'r rhaglen cyn ei chomisiynu.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Dafydd Meredydd –
dafydd.meredydd@bbc.co.uk**

Amserlen y Broses Gomisiynu

Dim ond drwy Proteus y derbynir ceisiadau a gofynnir i bawb sicrhau eu mynediad i'r system a sicrhau eu bod yn cyflwyno'r syniad. Cofier fod angen "arbed" a "chyflwyno i'r rhwydwaith" ar Proteus – yn y gorffennol mae pobl wedi "arbed" neu "cyflwyno i'r adran" yn unig. **Heb "gyflwyno i'r rhwydwaith" ni ellir ystyried unrhyw gais..**

Dyddiad Agor: 03 Ebrill 2020

Dyddiad Cau: **Sylwer **12 o'r gloch (hanner dydd) 21 Ebrill 2020****

Cyhoeddi canlyniadau: Dechrau mis Mai 2020

Y Gwaith Papur

Gydag hyfforddiant disgwylir i bob gwaith gweinyddol ôl gynhyrchu (wedi ei restru isod) gael eu cyflwyno drwy Proteus. Bydd eich login ar gyfer Proteus yn diweddu gyda 01 neu 02 unwaith y byddwch wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflwyno'r gwaith "papur" arferol. Dylai bob cwmni/unigolyn sicrhau eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn da bryd.

Mae'r rheol yn syml – os nad yw'r gwaith papur yn cael ei gyflwyno o fewn yr amser penodedig, ac o fewn y gofynion a nodwyd, ni allwn gomisiynu eich rhaglen/ podlediad. Cyflwynir y gwaith papur mewn cyd-weithrediad ag Angharad Davies, ein Rheolwr Cynhyrchu, a Cerian Arianrhod, ein Rheolwr Darlledu.

Dyma'r broses yr ydym yn disgwyl i chi ei dilyn:

Y cam cyntaf - cyflwyno cais

- Cyflwyno'r cais ar Proteus

Yr ail gam - wedi derbyn comisiwn

- Trafod Manyleb gyda'r Uwch-gynhyrchydd
- Cytuno ac arwyddo Manyleb a'i ddychwelyd
- Arwyddo cytundeb a'i ddychwelyd a chyflwyno anfoneb am y taliad cyntaf
- Cyflwyno Asesiad Risg y Rhaglen (os yn ofynnol)
- Creu'r rhaglen a defnyddiau atodol gan drafod yn gyson gyda'r Uwch gynhyrchydd
- Anfon manylion cynnwys (*billings*) a nodiadau pellach ar gyfer hyrwyddo yn y wasg
- Cyflenwi defnyddiau hyrwyddo a thrafod syniadau hyrwyddo
- Cyflenwi'r rhaglen a'r defnyddiau ychwanegol

Y trydydd cam – wrth gyflenwi'r rhaglen

- Cwblhau ffurflen gydymffurfiaeth a'i danfon wedi ei harwyddo gan y "Sawl sy'n Olygyddol Gyfrifol" a bennir yng nghymal 1 y Fanyleb Gomisiynu - **ni ellir darlledu'r rhaglen heb i'r ffurflen hon gael ei llenwi'n gyflawn**
- Cyflwyno Ffurflen Adroddiad Cerddoriaeth (*Music Reporting*) – wrth gyfleu'r rhaglen
- Cyflwyno Manylion Cyflwyno (a thrêl ysgrifenedig os y gofynnir amdano)
- Cyflwyno Trefn Rhaglen/*Running Order* (Yr hen *PasB*) - **dim hwyrach na 2 wythnos wedi'r dyddiad darlledu**
- Cyflwyno anfoneb am y taliad terfynol
- Cyflwyno unrhyw waith papur ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y darllediad fel a nodir o dan delerau'r Cytundeb hwn.